

Y Nodau Datblygu Cynaliadwy a Maint Cymru - Nodiadau i athrawon

Yn y gweithgaredd hwn, bydd eich disgyblion yn edrych ar y prosiectau cymunedol mae Maint Cymru yn rhan ohonynt mewn gwahanol wledydd o amgylch y byd, ac yn ystyried pa rai o nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig sydd yn cael eu cyflawni gan bob prosiect.

Mae hyn yn ffordd i ddisgyblion

- ddod yn fwy cyfarwydd gyda'r nodau datblygu cynaliadwy
- feddwl am sut mae'r gwahanol nodau yn cysylltu â'i gilydd, fel bod cyflawni un nod yn effeithio ar eraill
- ddysgu am yr anawsterau sy'n wynebu cymunedau mewn llawer o ardaloedd coedwigoedd glaw

Tybir bod eich dosbarth yn gyfarwydd â choedwigoedd glaw trofannol, ac yn gwybod rhywbeth am waith Maint Cymru.

Beth mae Maint Cymru yn ei wneud?

Rydym yn dod â phobl yng Nghymru a thu hwnt at ei gilydd i helpu i warchod pedwar miliwn hectar o goedwigoedd trofannol, a helpu i leihau datgoedwigo fel rhan o ymateb Cymru i'r her newid yn yr hinsawdd. Rydym yn codi ymwybyddiaeth hefyd, o ba mor hanfodol yw coedwigoedd trofannol i ni a'n hinsawdd, yn ogystal ag i'r bywyd gwylt a'r bobl sy'n byw ynddynt. Rydym yn gweithio mewn ysgolion a cholegau i gynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o ddeall a rhannu cyfrifoldeb am warchod coedwigoedd y byd. Rydym yn gweithio gyda busnesau, y llywodraeth a chymunedau yng Nghymru, ac yn eu cysylltu nhw gydag ardaloedd coedwigoedd trofannol penodol, a'u helpu i godi arian ar gyfer y prosiectau sy'n gweithio i warchod yr ardaloedd hynny.

Ceir disgrifiadau llawn o'r prosiectau presennol (naw yn 2019, yn Ne America, Affrica ac Indonesia) ar y wefan yn <https://sizeofwales.org.uk/cy/> gyda lluniau a straeon unigol.

Paratoi:

- Copïau o'r symbolau NDC ar ddalenni A4 (wedi'u darparu gyda'r adnodd hwn i chi eu hargraffu)
- Map o'r byd
- Copïau o'r disgrifiadau o brosiectau Maint Cymru, gyda'r adnodd hwn. Ceir disgrifiadau o saith prosiect yn y set (Uganda, Zimbabwe, Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo, dau yn Kenya, Gaiana a Periw).

Gallech ddewis defnyddio dim ond un o'r prosiectau neu fwy, yn dibynnu ar amser a diddordeb. Gellir gwneud y gweithgaredd hwn mewn un dosbarth neu fwy.

Gyda'r adnodd hwn, byddwch yn gweld rhestri hefyd o'r NDCau y mae Maint Cymru yn cysylltu pob prosiect â nhw. Gellir defnyddio'r rhestri hyn i ysgogi trafodaeth yn nes ymlaen ar ôl i'r disgyblion gael cyfle i fyfyrion arnynt.

Mae prosiect newydd yn Indonesia a fydd yn cael ei ychwanegu ar ryw bwynt. Crynodebau yw'r disgrifiadau. Mae mwy o wybodaeth am yr holl brosiectau ar y wefan – <https://sizeofwales.org.uk/>

Gweithdy:

Sleid 2 - Mae'r PowerPoint yn cyflwyno'r hyn mae Maint Cymru yn ei wneud yn gwyno.

Sleid 3 - Gofynnwch i'r disgyblion:

C. Beth fydddech chi'n hoffi eu newid/gweld yn digwydd i wneud y byd yn lle gwell?

Pwysleisiwch eich bod chi'n siarad am y byd, yn hytrach na rhywbeth lleol. Yn aml, mae defnyddio 'petasai gennych chi 3 dymuniad' yn gweithio'n dda.

Rhestrwch eu hatebion ar y bwrdd gwyn.

Mae'r rhan fwyaf o grwpiau yn cynnig newyn, llwgu, rhyfel a llygredd yn gyflym. O bryd i'w gilydd, maen nhw'n colli'r ffocws wrth gynhyrchu catalog o'r gwahanol fathau o lygredd neu rywbeth fel 'trosedd', 'plastigau' neu 'ysmygu'. Mae'n bwysig cydnabod eu barnau, ond eu harwain yn ôl at safbwynt byd-eang ehangach.

Yn y diwedd, mae gennych chi restr o bethau yr hoffent eu newid a allai gynnwys-

newyn, diffyg maeth, llwgu, diffyg dŵr glân, digartrefedd, rhyfel, trais, hiliaeth, gwahaniaethu, ffoaduriaid, llygredd a mwy na thebyg, newid yn yr hinsawdd.

Esboniwch mai nodau fyddai'r rheiny – e.e. "i atal unrhyw un rhag gorfod gadael ei gartref oherwydd rhyfel"

Sleid 4 - Y Cenhedloedd Unedig sy'n penderfynu ar nodau fel hynny

C. Beth ydy'r Cenhedloedd Unedig?

Sleid 5- Sefydlwyd y Cenhedloedd Unedig ym 1945, fel sefydliad i gael cyfarfodydd lle gall yr holl wledydd yn y byd ddod at ei gilydd a thrafod pethau – i weithio gyda'i gilydd i geisio cael byd mwy heddychlon ac i ddelio â phroblemau fel tlodi.

Gyda'r grŵp hŷn, efallai y byddwch eisiau rhoi'r disgrifiad hwn o bwrpasau'r Cenhedloedd Unedig iddynt -

Pwrpasau'r Cenhedloedd Unedig ydy:

1. Cynnal heddwch a diogelwch rhyngwladol, ac i'r perwyl hwnnw: cymryd mesurau effeithiol ar y cyd i atal a dileu bygythiadau i heddwch, ac i atal gweithredoedd ymosodol neu achosion eraill o dor heddwch, a mynd ati'n heddychlon, ac yn unol ag egwyddorion cyfiawnder a chyfraith ryngwladol, i addasu neu setlo anghydfodau neu sefyllfaoedd rhyngwladol a allai arwain at dor heddwch;
2. Datblygu cysylltiadau cyfeillgar ymhlith cenhedloedd ar sail parch at yr egwyddor o hawliau cyfartal a hunanbenderfyniad pobl, a chymryd mesurau priodol eraill i gryfhau heddwch cyffredinol;
3. Sicrhau cydweithrediad rhyngwladol wrth ddatrys problemau rhyngwladol o natur economaidd, gymdeithasol, ddiwylliannol, neu ddyngarol, ac wrth hyrwyddo ac annog parch tuag at hawliau dynol a rhyddid sylfaenol i bawb heb wahaniaethu o ran hil, rhyw, iaith, neu grefydd; a
4. Bod yn ganolfan ar gyfer cysoni gweithredoedd y cenhedloedd wrth gyflawni'r dibenion cyffredin hyn.

C. Faint o wledydd sydd yn y byd?

A: 195

C. Faint sy'n aelodau o'r Cenhedloedd Unedig?

A: 193

Sleid 6 - Yn 2015, penderfynodd y Cenhedloedd Unedig ar nodau newydd – y Nodau Datblygu Cynaliadwy

(NDCau, sy'n aml yn cael eu galw'n nodau byd-eang)

Sleid 7 - C. Beth ydy ystyr datblygu cynaliadwy?

Newid y byd fel bod pawb yn gallu cael digon heb ddinistrio'r amgylchedd. Defnyddio ein hadnoddau'n ddoeth i fodloni ein hanghenion, heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion nhw, ond yn y fath ffordd fel na fydd yn cael dim effaith, neu dim llawer o effaith, ar ein Hecosystem.

Sleid 8 - Mae gan y Cenhedloedd Unedig 17 o NDCau (nodau byd-eang)

Dosbarthwch daflenni o'r NDCau fel bod pob grŵp bach yn gallu eu gweld.

C. Pa nodau sydd yr un fath â'r nodau y meddylio ch chi amdanynt?

Sleid 9 - Pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2015. Un o'r nodau yn y Ddeddf honno yw 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.'

<https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/160401-wfg-accessible-guide-for-young-people-en.pdf>

Cymru, y Cenhedloedd Unedig a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

Yn sgil cael ei hysbrydoli gan ymgynghoriad rhyngwladol WorldWeWant y Cenhedloedd Unedig, mabwysiadodd Cymru'r ymagwedd 'o'r gwaelod i fyny' i weld beth oedd pobl eisiau ar gyfer eu dyfodol drwy gyfrwng y sgwrs TheWalesWeWant. Daeth yr argymhellion yn rhan o Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2015, ac y mae ei pholisïau, ei harferion a'i monitro yn pwysleisio pwysigrwydd cyfranogiad parhaus ac eang gan bobl a rhanddeiliaid (gan gynnwys busnesau), i wireddu eu hamcanion. Hon hefyd oedd y ddeddfwriaeth gyntaf i sôn am y NDCau a sut mae Cymru'n cyfrannu atynt.

<http://www.fdsd.org/the-uk-the-sdgs-and-particularly-sdg-16/>

Sleid 10 - C. Mae Maint Cymru yn gweithio gyda chymunedau lleol i warchod ardaloedd o goedwigoedd glaw. O dan ba NDC mae hwn yn disgyn?

- rhif 15 – Bywyd ar y tir

Hwn ydy'r un amlwg, ond gallant yn hawdd awgrymu rhai eraill (fel y byddant yn gweld yn ddiweddarach, mae llawer o'r NDCau yn gallu cael eu bodloni gan waith Maint Cymru).

Sleid 11 – C. Beth sy'n **bwysig** am goedwigoedd glaw?

Bioamrywiaeth? (y goedwig drofannol yw'r lle mwyaf bioamrywiol ar y blaned, gyda'r nifer fwyaf o wahanol rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid)

Beth am gymunedau mewn coedwigoedd? (Mae 300 miliwn o bobl yn byw mewn coedwigoedd, ac mae 1.6 biliwn yn dibynnu arnynt am eu bywoliaeth)

Newid yn yr hinsawdd? (maen nhw'n ffotosyntheseiddio CO₂, ac yn

defnyddio'r carbon i adeiladu pren, dail a gwreiddiau, a darparu'r ocsigen)

Sleid 12 - C. Beth sy'n **digwydd** i'r coedwigoedd glaw?

Maen nhw'n cael eu torri lawr i bori gwartheg i gynhyrchu cig eidion, i dyfu cnydau (ar gyfer bwyd a thanwydd), ar gyfer mwyngloddio ac ar gyfer pren.

(buasai'n ddefnyddiol dangos lluniau i ddisgyblion o rai o'r rhain)

Sleid 13 - Felly, mae Maint Cymru yn cefnogi'r cymunedau sy'n byw yn y goedwig sy'n eu helpu nhw i warchod eu hamgylchedd.

Mae hyn yn bodloni nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o 'Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang'.

Gadewch i ni edrych ar un o'r prosiectau, a gweld os yw'n bodloni NDCau eraill, yn ogystal â NDC 15.

Byddwch wedi derbyn y prosiect/prosiectau yr hoffech i'ch disgyblion edrych arno/arnynt.

Rhowch gopiau o'r prosiect i'r disgyblion(mwy na thebyg, yr un prosiect er mwyn hwyluso trafodaeth ddosbarth)

Gofynnwch i'r disgyblion ddarllen disgrifiad o'r prosiect mewn parau, i drafod a rhestru pa NDCau maen nhw'n meddwl mae'r prosiect yn helpu i'w cyflawni. Gall hyn wedyn arwain at drafodaeth yn y dosbarth. Byddai'n syniad da cael y rhestr wrth law sy'n rhan o'r adnodd hwn ac sy'n dangos pa rai o'r NDCau mae Maint Cymru wedi'u cysylltu â'r gwahanol Brosiectau, er mwyn helpu i ysgogi'r drafodaeth hon os bydd angen. Efallai yr hoffech rannu'r rhestr hon yn nes ymlaen. Os oes amser a diddordeb gennych, ewch ati i edrych ar Brosiect arall.

Wrth drafod beth mae'r disgyblion yn feddwl, byddai'n werth nodi pa mor gysylltiedig yw'r nodau hyn â'i gilydd. Er enghraifft, os ydych chi'n lleihau tloedi, mae'n ei gwneud hi'n haws i bobl gael gafael ar fwy o fwyd, a bwyd gwell, a chael gafael ar wasanaethau iechyd yn rhwyddach.

Sleid 14 - Mae'r hyn y gallwn ei wneud ym Maint Cymru yn eithaf bach ond –

Dyfyniad Wangari Mathai: Y pethau bychan mae dinasyddion yn eu gwneud. Dyna beth fydd yn gwneud y gwahaniaeth. Fy mheth bach i ydy plannu Coed.”

Ond nid dim ond coed yn unig wnaeth hi blannu. Os ydy disgyblion eisiau gwybod mwy amdani –

<https://www.greenbeltmovement.org/wangari-maathai/biography>

Sleid 15 - Mae'n bwysig dros ben ein bod ni'n ceisio lleihau faint o CO2 a nwyon tŷ gwydr eraill rydym yn eu rhyddhau i'r atmosffer.

Felly, mae gan bob un ohonom ni rôl i'w chwarae i gyflawni'r NDCau.

Efallai y byddwch eisiau dangos ffilm i'r disgyblion o'r goedwig law. Mae dau ar gael ar lein –

Mae'r un hwn yn 2 + munud – trosolwg cyflym iawn gyda lluniau a mapiau – da i ddisgyblion CA2

<https://www.youtube.com/watch?v=OS2VrgRFCzc>

Mae 'Amazon: The lungs of our planet' gan y BBC yn 4 munud o hyd. Mae'n defnyddio rhai termau na fydd disgyblion CA2 yn debygol o'u hadnabod,

ond mae'r rhan fwyaf yn iawn, ac mae'n rhoi syniad da iawn o faint y goedwig law, ac yn sôn am bwysigrwydd yr Amazon a'r bygythiadau iddi <https://www.youtube.com/watch?v=9eFiZbB9aJQ>

Ffilm 2 funud ydy hon o waith un o'r grwpiau menywod sy'n plannu coed yn Uganda, y byddwch eisiau ei defnyddio efallai. Maen nhw'n canu am blannu coed-

<https://sizeofwales.org.uk/international-womens-day-2018-with-the-suunu-womens-group-in-uganda/>